# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 23 Ebrill 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Dyfodol Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

**C13 David Lloyd:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar unrhyw drafodaethau a fu rhyngddo ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn y tri mis diwethaf ar ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ16848)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Yr wyf yn cwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rheolaidd, ac yr ydym yn trafod ystod eang o faterion, gan gynnwys dyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn croesawu'r adnoddau ychwanegol a ddaw i Gymru yn sgîl datganiad cyllidebol y Canghellor i wella ansawdd gofal iechyd Cymru. Cawn £128 miliwn yn ychwanegol yn 2003-04, £493 miliwn ychwanegol at y flwyddyn 2004-05, £907 miliwn ychwanegol yn 2005-06, £1,348 miliwn ychwanegol yn 2006-07 a £1,844 miliwn yn y flwyddyn 2007-8. Mae'r ffigurau hyn i gyd yn fwy na gwaelodlin 2003-04 y'i cytunwyd â'r Trysorlys ar gyfer yr arolygiad cyfredol o wariant.

### Is-ddeddfwriaeth drwy'r Weithdrefn Garlam

**C14 David Melding:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y meini prawf a ddefnyddir gan ei weinyddiaeth i benderfynu pa is-ddeddfwriaeth a gaiff fynd drwy'r weithdrefn garlam? (OAQ16816)

**Prif Weinidog Cymru:** Yn ôl y Rheolau Sefydlog, nid oes angen i Weinidogion wneud argymhelliad i'r Pwyllgor Busnes ynglŷn ag a ddylid defnyddio'r gweithdrefnau safonol ynteu garlam i ymdrin ag is-ddeddfwriaeth ddrafft. Serch hynny, mae fy nghyd-aelodau o'r Cabinet a minnau'n gwneud hynny er mwyn arddel yr arfer gorau. Mae ein hargymhellion yn adlewyrchu ein barn ynglŷn ag i ba raddau yr hoffai'r Aelodau archwilio'r ddeddfwriaeth, gan ystyried natur y ddeddfwriaeth arfaethedig ac unrhyw sylwadau a gafwyd gan Aelodau.

### Blaenoriaethau Cydlynydd Polisi Gogledd Cymru

**C15 Gareth Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ei flaenoriaethau fel cydlynydd polisi ar gyfer gogledd Cymru? (OAQ16846)

**Prif Weinidog Cymru:** Yn rhinwedd fy swydd fel cydlynydd polisi i'r Gogledd, ymdrechaf i sicrhau bod effeithiau polisïau ar bob rhanbarth yng Nghymru yn cael eu hystyried wrth benderfynu polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys y Gogledd.

Er enghraifft, wrth benderfynu ar bolisïau a blaenoriaethau ar gyfer y Gogledd ym maes addysg, yr wyf yn ystyried yn llawn y datganiadau am anghenion y rhanbarth o ran addysg a dysgu gydol oes, sy'n cael eu paratoi gan Ddysgu ac Addysgu Cymru.